

# Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

## Welsh Language Advisory Panel

21 Medi 2017 am 1:30 o'r gloch  
Ystafell Gynadledda'r Uned Ddemocrataidd, Neuadd y Sir

### COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

Enw:		Grŵp / Swydd:
Cyng. Peter Hughes-Griffiths	PHG	Plaid Cymru (Cadeirydd)
Cyng. Carys Jones	CJ	Plaid Cymru
Cyng. Dorian Williams	DW	Plaid Cymru
Cyng. John Prosser	JP	Llafur
Cyng. Alun Lenny	AL	Plaid Cymru
Cyng. Tina Higgins	TH	Llafur
Cyng. Sue Allen	SA	Annibynnol
Cyng. Edward Thomas	ET	Annibynnol
<b>Swyddogion</b>		
Llinos Evans	LLE	Swyddog Polisi a Phartneriaeth
Gwyneth Ayers	GA	Rheolwr Polisi a Phartneriaeth
Myfanwy Jones	MJ	Swyddog Polisi Iaith
Bethan James	BJ	Swyddog Polisi Iaith

Rhif eitem	Testun a phwyntiau gweithredu:	Yn gyfrifol:
1.	<b>Croeso ac Ymddiheuriadau</b> Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cyngorydd Peter gan estyn croeso arbennig i'r aelodau newydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyngorydd Joseph Davies ac eglurwyd i'r Aelodau y bydd trydydd aelod o'r Blaid Lafur yn cael ei gadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gweithredol.	
2.	<b>Cofnodion y cyfarfod diwethaf</b> Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir. Nodwyd bod Kelly Morris wedi cael ei phenodi i'r swydd newydd Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg o fewn y Tîm Dysgu a Datblygu.	
3.	<b>Cyflwyniad byr ar waith y Panel</b>	

Soniodd LIE am ganlyniadau'r cyfrifiad gan nodi mai Sir Gaerfyrddin oedd wedi profi'r cwmp mwyaf ar draws Cymru sef lleihad o 6.4% (dirywiad o 6,148 o siaradwyr) mewn degawd. Am y tro cyntaf yn hanes Sir Gaerfyrddin mae canran siaradwyr Cymraeg Sir Gâr wedi cwmpo dan yr hanner (43.9%).

Nodwyd nad oes yr un ward yn Sir Gâr bellach lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, sef y ganran hyfywedd iaith. Mae'r patrwm o ostyngiad i'w weld ar draws y sir, ond ymddengys mai yn Nyffryn Aman y gwelwyd y gostyngiad pennaf rhwng 2001 a 2011.

Mae nifer o bobl sydd wedi nodi eu bod nhw'n deall Cymraeg, ond ddim yn gallu siarad wedi cynyddu i 20,716 o bobl. Mae potensial yn Sir Gâr i annog y rhai sy'n gallu deall, a meithrin eu hyder yn yr iaith.

Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2011, cytunodd y Cyngor yn unfrydol i sefydlu Gweithgor penodol i edrych ar sefyllfa'r Gymraeg ac yn benodol ar achos y dirywiad. Comisiynwyd Dr Dylan Phillips i wneud gwaith ymchwil manwl ar y data a darparodd adroddiad llawn sydd i'w weld ar wefan y Cyngor. Fe wnaeth Dr Dylan Phillips adroddiad ystadegol penodol i ardal pob Menter iaith er mwyn eu cefnogi wrth gynllunio eu gwaith yn lleol. Cadarnhaodd y gwaith ymchwil bod angen cynllunio ar lefel lleol iawn o ran y Gymraeg gan fod y rhesymau am y dirywiad yn gwahaniaethu yn ôl ardal o fewn y sir. Mae diffyg trosglwyddo iaith yn her yn nhref Caerfyrddin a thref Rhydaman, ond mewnlifiad pobl hyn ynghyd ag allfudiad pobl ifanc cynhenid yw'r her mewn ardaloedd gwledig megis Cynwyl Gaeo.

Daeth y Gweithgor i benderfyniad ar 7 thema benodol gan wahodd sefydliadau a mudiadau i gyflwyno tystiolaeth i'r Gweithgor. Y 7 thema oedd Addysg; Cynllunio; Yr iaith a'r economi; Gweithleoedd a gweinyddiaeth y Cyngor; Mudiadau sy'n gweithio er lles y Gymraeg; Trosglwyddiad iaith; a Marchnata'r iaith. Cytunwyd ar 73 o argymhellion a chytunwyd arnynt mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn yn Ebrill 2014. Mae adroddiad y Gweithgor 'Y Gymraeg yn Sir Gâr' i'w weld ar wefan y cyngor ond mae'r argymhellion bellach yn rhan o waith y Panel. Bydd cyfle i'r Aelodau drwy waith y Panel i edrych ymhellach ar y datblygiadau gan sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud o hyd.

Mae'r gwaith polisi erbyn hyn yn cael ei arwain gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Mae'r Mesur yn gosod fframwaith newydd sef y Safonau Iaith sy'n disodli'r Cynllun Iaith. Derbyniodd y Cyngor ei Safonau ym mis Medi 2015 gyda'r disgwyliad bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r Safonau erbyn 30 Mawrth 2016 ac eraill erbyn diwedd Medi 2016.

Mae'r Safonau yn cael eu trefnu o dan 5 dosbarth o safon sef cyflenwi gwasanaethau; llunio polisi; gweithredu; hybu; a chadw cofnod. Nododd LIE y gofynion o dan bob dosbarth o safon. Mae tipyn o waith codi ymwybyddiaeth wedi digwydd gyda staff y Cyngor er mwyn sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Mae'r tîm Polisi wedi cynhyrchu Canllawiau ac wedi eu hanfon at bob aelod o staff drwy e-bost, rhoi copiâu papur i'r staff sydd heb gyswllt swyddfa a'u cyhoeddi ar fewnwyd y cyngor. Dosbarthwyd enghraifft i'r Aelodau. Mae'r adborth o ran y canllawiau wedi bod yn bositif ac wrth eu cyhoeddi mae'r adrannau wedi dod atom fel tîm i ofyn am gyngor a chefnogaeth. Mae wedi bod o ddefnydd i'r tîm i gwrdda nifer o aelodau o staff ac atgoffa staff o'r polisi

	<p>newydd. Mae angen parhau i gynorthwyo a gweithio gyda staff er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.</p> <p>Soniodd LIE am gynllun gweithredu'r cyngor sy'n cael ei adolygu'n flynyddol gyda champau penodol ynghyd â'r adroddiad blynyddol.</p> <p>Cyfeiriodd LIE at ddogfennau polisi eraill gan gynnwys y polisi ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg gan nodi bod rhaglen hyfforddi eang ar gael i staff. Mae Fframwaith Strategol 'Mwy na Geiriau', sef polisi Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol yn fframwaith mae'r Adran Cymunedau yn arwain ond gyda chefnogaeth y tîm polisi.</p> <p>Soniodd LIE am y pwyllgorau sy'n bodoli i graffu ar gynnydd a wnaed o ran y Gymraeg.</p> <p>Cafwyd trafodaeth am y ffyrdd o fonitro'r holl waith sy'n digwydd am y Gymraeg a soniwyd bod gwaith yn digwydd trwy'r Fforwm Strategol Sirol a'r pwyllgorau mewnol ond bod angen gwneud mwy o waith ar hyn.</p>	
<b>4.</b>	<p><b>Cylch Gorchwyl</b></p> <p>Nododd BJ beth oedd nod ac amcanion y Panel Ymgynghorol blaenorol a chyflwynwyd newidiadau ar gyfer y tymor nesaf o ran y Safonau Iaith a'r Fforwm Strategol Sirol.</p> <p>Cyfeiriwyd at y ffaith bod 3 aelod o bob grŵp gwleidyddol yn rhan o'r Panel a bydd yr Aelod Bwrdd Gweithredol sydd â chyfrifoldeb am yr iaith Gymraeg yn cadeirio.</p>	
<b>5.</b>	<p><b>Strategaeth Llywodraeth Cymru: 'Cymraeg 2050 ~ Miliwn o Siaradwyr</b></p> <p>Amlinellodd BJ y cyd-destun o ran Strategaeth Llywodraeth Cymru a'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.</p> <p>Mae'r Strategaeth yn ffocysu ar y maes Addysg ac yn gosod targedau penodol o ran y nifer o blant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Cyfeiria hefyd at bwysigrwydd annog dysgwyr y Gymraeg a'r gefnogaeth sydd ar gael drwy'r Ganolfan Genedlaethol.</p> <p>Nodir yn y Strategaeth gyfraniad allweddol trosglwyddo iaith yn y cartref i hyfywedd y Gymraeg yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r Strategaeth yn cyfeirio at dair thema a cheir penawdau perthnasol o dan bob thema.</p> <p><b><u>Thema 1 – Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg</u></b></p> <p><b>Trosglwyddiad iaith</b></p> <p><b>Y blynyddoedd cynnar</b> – cynyddu niferoedd darpariaeth blynyddoedd cynnar, h.y. grwpiau meithrin</p>	

	<p><b>Addysg statudol</b> – her i awdurdodau lleol fydd ad-drefnu’r ddarpariaeth er mwyn creu mwy o leoedd cyfrwng Cymraeg ac er mwyn sicrhau bod ysgolion dwyieithog, dros amser, yn cyflwyno canran uwch o’r cwricwlwm yn Gymraeg</p> <p>Disgwyliadau o ran datblygu pwyntiau mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i hwyrddyfodiaid.</p> <p><b>Addysg ôl-orfodol</b> – Galw cynyddol am weithlu dwyieithog felly rôl allweddol gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Mae’n nodi bod angen i’r sector ‘newid gêr’!</p> <p>Cymraeg i Oedolion. Nodi bod newidiadau strwythurol wedi digwydd. Datblygu darpariaeth nawr ar lefel genedlaethol i gynnal cyrsiau i’r gweithle, y teulu a defnyddio technoleg i gefnogi’r dysgu.</p> <p><b>Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau</b> – Angen cynyddu capasiti, athrawon cynradd ac uwchradd sy’n gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Angen mwy o adnoddau cyfrwng Cymraeg.</p> <p><b><u>Thema 2 – Cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg</u></b></p> <p><b>Y gweithle</b> – cynyddu defnydd y Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector</p> <p><b>Gwasanaethau</b> – cynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a chynyddu’r defnydd o wasanaethau Cymraeg</p> <p><b>Defnydd cymdeithasol o’r Gymraeg</b> – sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio’r iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio’r Gymraeg yn gymdeithasol</p> <p><b><u>Thema 3 – Creu amodau ffafriol i bobl ddefnyddio’r Gymraeg (h.y. dim rhwystrau)</u></b></p> <p>Er mwyn cefnogi’r ddwy thema o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a’r defnydd o’r Gymraeg, mae’r Strategaeth yn trafod newidiadau sydd angen eu gweld dros y tri degawd nesaf o dan y penawdau:</p> <p>Cymuned a’r economi; Diwylliant a’r cyfryngau; Cymru a’r byd ehangach; Technoleg ddigidol; Seilwaith ieithyddol; Cynllunio ieithyddol; a Gwerthuso ac ymchwil.</p> <p>Felly i grynhoi, mae’n strategaeth hirdymor sy’n gosod her sylweddol ac uchelgeisiol.</p>	
6.	<p><b>Llywodraeth Cymru – Dogfen Ymgynghori y Papur Gwyn</b></p> <p>Cyhoeddwyd y Papur Gwyn Taro’r Cydbwysedd Iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg ar y 9fed o Awst, gyda’r dyddiad cau ar gyfer sylwadau ar 27 Hydref</p>	

	<p>2017. Mae Papur Gwyn yn un o'r ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion i wneud deddfau newydd o ran y Gymraeg.</p> <p>Yn Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad i adolygu deddfwriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae angen gwneud hyn er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn gyfredol ac yn cefnogi uchelgais i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.</p> <p>Rhodddwyd crynodeb o'r prif gynigion yn y papur. Nodwyd bod y Papur Gwyn yn rhoi rhesymeg y tu ôl i'r cynigion hynny, y prif faterion a'r opsiynau a ystyriwyd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid sefydlu un prif gorff i fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg ac am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau.</li> <li>• Y corff hwnnw fydd Comisiwn y Gymraeg ac felly dylid diddymu Comisiynydd y Gymraeg.</li> <li>• Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am strategaeth genedlaethol y Gymraeg, polisi cenedlaethol, rheoli a chyllido rhai cyrff sydd o arwyddocâd cenedlaethol, a rhai meysydd gwaith penodedig. Dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo'r gyllideb a'r adnoddau ar gyfer gwaith penodedig arall y mae'n ei wneud ar hyn o bryd i hybu'r Gymraeg i Gomisiwn y Gymraeg.</li> <li>• Dylid cadw cysyniad Safonau'r Gymraeg, ond dim ond i wasanaethau y dylai'r Safonau fod yn berthnasol. Dylid galw dyletswyddau corfforaethol eraill sy'n rhan o system y Safonau ar hyn o bryd, nad ydynt yn creu hawliau gorfodadwy ar gyfer unigolion, yn 'ddyletswyddau cynllunio ieithyddol' a dylent fod yn ddyletswyddau statudol ar gyrff a nodir yn y ddeddfwriaeth.</li> <li>• Dylid adolygu'r Safonau y mae gofyn i gyrff gydymffurfio â nhw o bryd i'w gilydd a, lle bo'n briodol, dylid gosod Safonau ychwanegol ar gyrff neu gael gwared ag eithriadau a ganiateir i gyrff ar hyn o bryd.</li> <li>• Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am greu a gosod Safonau ar gyrff, ac am gyhoeddi canllawiau a chodau ymarfer. Dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau.</li> <li>• Dylai fod yn ofynnol i'r cyrff eu hunain ddelio â chwynion mewn perthynas â'r Safonau yn y lle cyntaf. Dim ond mewn achosion difrifol y dylai'r Comisiwn ymchwilio i gwynion.</li> <li>• Dylid cadw Tribiwnlys y Gymraeg. Dylai cyrff allu apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn bwriad gan Lywodraeth Cymru i osod Safon arnynt.</li> <li>• Dylid gallu cymhwyso'r Safonau i unrhyw gorff, cyn belled â bod y gofynion yn rhesymol ac yn gymesur ac o fewn pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.</li> </ul> <p>Cytunwyd i baratoi ymateb drafft erbyn 9 o Hydref. Gofynnwyd i'r Aelodau i ddychwelyd unrhyw sylwadau cyn neu wrth ddarllen yr ymateb drafft. Bydd Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths yn cytuno ar yr ymateb terfynol erbyn 31 Hydref.</p>	
<p><b>7.</b></p>	<p><b>Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hybu</b></p> <p>Soniwyd bod y Strategaeth Hybu yn deillio o'r Safonau, sy'n ddogfen neu'n arf i Sir Gâr i gynllunio ieithyddol. Lluniwyd y Strategaeth Hybu rhwng Mawrth a Medi 2016 drwy'r Panel Ymgynghorol a'r Fforwm Strategol Sirol. Soniwyd mai</p>	

	<p>gweledigaeth hirdymor y Strategaeth yw anelu at wneud y Gymraeg yn brif iaith y sir.</p> <p>Rhestrwyd yr amcanion o ran caffael sgiliau, cynyddu hyder a defnydd y Gymraeg, effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth, targedau ardaloedd daearyddol a marchnata a hyrwyddo'r iaith.</p> <p>Ers cyhoeddi'r Strategaeth mae gwaith mapio pellach wedi digwydd ac mae'r Fforwm wedi bod yn arbrofi gyda dulliau o fesur effaith a lledaenu negeseuon newyddion da.</p> <p>Mae'r Strategaeth Hybu yn cynnwys nifer o argymhellion Adroddiad y Gymraeg yn Sir Gâr heblaw am y rhai sy'n ymwneud ag addysg gan fod y rhai hynny yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.</p> <p>Nodwyd bod angen diweddarau'r pwyntiau gweithredu yn dilyn cyfarfod swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor a thrafod yn y Fforwm Strategol Sirol.</p> <p>Dywedwyd bydd y Fforwm Strategol Sirol yn adolygu'r Strategaeth Hybu ym mis Mawrth 2018, a nodir yn y Safonau bod angen i'r Cyngor adrodd ar y Strategaeth Hybu bob pum mlynedd felly bydd yn cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol 2021.</p>	
<b>8.</b>	<p><b>Unrhyw fater arall</b></p> <p>Cyfeiriwyd at daflen hyrwyddo manteision dwyieithrwydd 'Bod yn ddwyieithog...' a nodwyd pwysigrwydd y negeseuon sydd yn y daflen.</p> <p>Cafwyd trafodaeth am yr ysgol newydd ym Mhenrhos, ward Glanymor a chytunwyd i drafod cylchrediad y ddogfen yn yr ardal benodol hynny gyda'r Adran Addysg.</p> <p>Cytunwyd i anfon y cyflwyniadau at y Cyngorwyr.</p> <p>Soniwyd am bwysigrwydd hyrwyddo addysg Gymraeg i rieni ynghyd ag addysg galwedigaethol a digwyddiadau y tu allan i'r ysgol megis y Ffermwyr Ifanc, Yr Urdd a gwersi nofio.</p>	<p>MJ</p> <p>BJ</p>
<b>9.</b>	<p><b>Dyddiad y cyfarfod nesaf</b></p> <p>11 Rhagfyr 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytunwyd i wahodd Kelly Morris, Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg i roi diweddariad am ddatblygu sgiliau iaith y gweithlu.</li> </ul>	<p>BJ</p>